

Nodyn cyfarwyddyd ar Goronafeirws (COVID-19): Cyllid

Mae'r gwaith o reoli cyllid yn bwysig i fusnesau ar y gorau, ond pan wynebir y sefyllfa sydd ohoni, gyda'r holl amharu, pethau'n cau a'r galw cynyddol ar adnoddau, nawr yw'r amser i gamu'n ôl, dadansoddi eich sefyllfa ariannol a llunio cynllun rhagweithiol sy'n nodi sut y gallwch dalu costau eich busnes a pharhau i weithredu ar y fath adeg nas gwelwyd o'r blaen sydd o ganlyniad i'r achosion o Goronafeirws (Covid-19) yn y DU.

Mae'r llywodraeth, cyllidwyr a gwasanaethau cymorth yn ymateb yn gyflym i sefyllfa sy'n newid yn gyflym ac eisoes mae mentrau'n cael eu lansio i gefnogi busnesau bach a'r sector busnes cymdeithasol.

Nod y nodyn briffio hwn yw eich cyfeirio at wybodaeth ac adnoddau defnyddiol sy'n ymwneud â chyllid yn ystod y pandemig hwn. Byddwn yn diweddarar'r briffiad hwn yn rheolaidd wrth i fwy o adnoddau a chyngor fod ar gael.

Mae llawer o'r dolenni i'r ddogfen hon i wefannau allanol; fe'u rhennir gyda phob ewyllys da ond ni allwn reoli eu cynnwys na'u cywirdeb.

Rheoli llif arian parod a chymorth ariannol

Mae nodi'r hyn y mae angen ei dalu dros yr wythnosau nesaf a faint fydd ei angen arnoch i gwmpasu eich costau yn gam cyntaf o ran cymryd rheolaeth. Pan fyddwch wedi nodi'r diffygion tebygol, mae amrywiaeth o opsiynau ar gael i lenwi'r bwlch yn eich llif arian parod, o siarad â'ch banc am ymestyn eich gorddrafft neu drefnu gwyliau talu/gohirio taliadau i wneud cais am grantiau arbenigol a benthyciadau pontio sydd wedi cael eu creu er mwyn helpu busnesau drwy'r pandemig hwn.

Os oes gennych broses llif arian parod sefydledig ar waith eisoes, yna bydd angen i chi gynnal prawf straen arno. Mae a wnelo'r prawf hwn ag archwilio cadernid ariannol eich sefydliad drwy fanipwleiddio'r incwm a'r gwariant, er enghraifft lleihau incwm 20%, yna 30% ac ati – bydd yn dangos pryd mae angen i chi gael arian ychwanegol ar gyfer eich busnes er mwyn parhau i fasnachu.

Gan siarad â'ch rhanddeiliaid, partneriaid a chyflenwyr, efallai y bydd modd gohirio taliadau i ddod a fydd yn helpu i liniaru problemau byrdymor o ran eich llif arian parod. Fel arall, gall lleihau eich amser anfonebu annog cleientiaid i dalu'n gyflymach. Yn yr un modd, gall mynd ar drywydd anfonebau sy'n weddill helpu hefyd. Mae cronfeydd wrth gefn yn rhywbeth i'w ystyried hefyd. Mae llawer o sefydliadau yn creu cronfeydd wrth gefn er mwyn eu galluogi i ymdopi ag unrhyw fylchau o ran eu llif arian parod. Os oes gennych bolisi cronfeydd wrth gefn, trafodwch fel Bwrdd faint o'ch cronfeydd wrth gefn (os o gwbl) y gellir ei ddefnyddio i



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government


**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**

Busnes Cymdeithasol Cymru

Social Business Wales

Yn fentrus gadarnhaol

Positively enterprising



gefnogi'r busnes dros y chwe mis nesaf.

- Mae **Busnes Cymru** yn nodi'r prif ystyriaethau wrth lunio eich rhagamcan llif arian parod: <https://businesswales.gov.wales/starting-up/cy/rheoli-eich-arian/rhagamcan-llif-arian>
- Mae **Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru** wedi lansio benthyciadau pontio mewn argyfwng ar gyfer y sector: <https://wcva.cymru/cy/benthyciadau-carlam-mewn-argyfwng/>
- Mae'r rhan fwyaf o fanciau, fel **Banc Datblygu Cymru**, yn cynnig gwyliau ad-dalu, felly holwch eich banc a'ch benthycwyr er mwyn gweld beth sydd ar gael: <https://developmentbank.wales/cy/newyddion-digwyddiadau/cynnig-gwyliau-ad-daliad-cyfalaf-i-fusnesau-i-helpu-i-reoli-effaith>
- Mae dros 25 o fuddsoddwyr cymdeithasol wedi dod ynghyd drwy **Good Finance** i nodi'r ffyrdd y gallant helpu. Mae gwefan Good Finance yn cynnwys rhestrau hawdd eu defnyddio a dolenni: <https://www.goodfinance.org.uk/latest/post/blog/social-investors-respond-covid-19>

Cymorth gan y llywodraeth

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi mynd ati'n gyflym i lansio cynlluniau cymorth er mwyn helpu busnesau bach drwy'r cyfnod heriol hwn. Mae nifer o fentrau wedi cael eu lansio'n barod, gan gynnwys rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, mentrau Cyllid a Thollau EM (CThEM), rhyddhad tâl salwch statudol, a grantiau a benthyciadau ar gyfer busnesau bach yn benodol. Bydd rhagor o fanylion ar gael dros y diwrnodau a'r wythnosau nesaf, felly cadwch lygad allan.

- Mae gan **Busnes Cymru** grynodedb o fentrau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â dolenni i gymorth pellach i fusnesau yn ystod argyfwng Covid-19: <https://businesswales.gov.wales/cy/cyngor-coronafeirws>
- Mae **Llywodraeth y DU** wedi cyhoeddi canllawiau i gyflogwyr, cyflogeion a busnesau, gan gynnwys y cymorth sydd ar gael: <https://www.gov.uk/government/publications/guidance-to-employers-and-businesses-about-covid-19/covid-19-support-for-businesses>
- Mae **CThEM** wedi sefydlu llinell gymorth ynghylch trethi i gynnig cymorth i fusnesau yr effeithir arnynt. <https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/llinell-gymorth-ynghylch-treth-i-fusnesau-mae%E2%80%99r-coronafeirws-covid-19>



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government


**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**

Busnes Cymdeithasol Cymru

Social Business Wales

Yn fentrus gadarnhaol

Positively enterprising



Aralgyfeirio Incwm:

Mae ein sector bob amser wedi bod yn wych am ymateb i anghenion y gymuned a bylchau yn y farchnad. Rydym eisoes wedi gweld enghreifftiau o fusnesau cymdeithasol yn addasu eu modelau busnes yn sgil Coronafeirws er mwyn helpu'r cymunedau maent yn gweithio ynddynt. A oes unrhyw beth y gallwch ei wneud yn wahanol o fewn eich busnes i barhau i gynhyrchu incwm?

Allwch chi roi cynnig ar dalu â cherdyn ar-lein? Mae gan **startups.co.uk** ganllaw syml ar sut i sefydlu system dalu:

<https://startups.co.uk/take-payments-online>

Neu a allech newid eich dull cyflenwi, mynd â'r cynnyrch at y cwsmer, neu ddarparu cymorth rhithwir?

[https://www.learnmyway.com/courses/video-calling/?](https://www.learnmyway.com/courses/video-calling/?fbclid=IwAR1ZcRbJ1LZXRTvSQ9JXQPaLeDLD8yEnbgYWqhZ8cxW28HIfcB6Md8cdKiM)

[fbclid=IwAR1ZcRbJ1LZXRTvSQ9JXQPaLeDLD8yEnbgYWqhZ8cxW28HIfcB6Md8cdKiM](https://www.learnmyway.com/courses/video-calling/?fbclid=IwAR1ZcRbJ1LZXRTvSQ9JXQPaLeDLD8yEnbgYWqhZ8cxW28HIfcB6Md8cdKiM)

Siarad â Chwsmeriaid a Rhanddeiliaid:

Mae cwsmeriaid a chymunedau wrth wraidd yr hyn a wnawn ac maent yn ein gwerthfawrogi. Mae llawer o fusnesau cymdeithasol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau y maent yn gorfod eu gwneud, a ydynt ar agor a'r heriau maent yn eu hwynebu i gleientiaid drwy'r cyfryngau cymdeithasol a ffyrdd eraill o gyfathrebu. Mae rhai wedi gweld mwy o roddion yn cael eu gwneud a mwy o achosion o brynu ymlaen llaw er mwyn helpu eu llif arian parod ar yr adeg heriol hon. Felly, gadewch i'ch cwsmeriaid a'ch rhanddeiliaid wybod sut y gallant eich cefnogi yn ystod y cyfnod anodd hwn – efallai y bydd eu hymateb yn eich synnu! Gallech ofyn iddynt eich cefnogi drwy brynu talebau i'w defnyddio yn y dyfodol neu ddatblygu ymgyrch cyllido torfol er mwyn helpu i gyllido diffygion.

<https://www.crowdfunder.co.uk/pay-it-forward>

Siaradwch â'ch aelodau am roddion, rhai ariannol ac mewn nwyddau, yn ogystal â benthyciadau gan aelodau o bosibl, ond yn amlwg bydd angen ad-dalu'r rhain.

Mae'r sefyllfa yn newid yn gyflym ac rydym yn gweithio fel tîm i ddatblygu adnoddau a chyngor penodol a fydd ar gael dros y diwrnodau a'r wythnosau nesaf, felly cadwch lygad ar agor am y wybodaeth ddiweddaraf drwy e-bost ac ewch i'n gwefan <https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy> yn rheolaidd hefyd.

Os hoffech siarad ag un o'n Cynghorwyr Busnes, ffoniwch ni ar 0300 111 5050 neu e-bostiwch sbwenquiries@wales.coop a gallwn drefnu i rywun eich ffonio'n ôl.



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**